Taliadau uniongyrchol: ateb cwestiynau cyffredin

social care
institute for excellence
scie

Taliadau uniongyrchol: ateb cwestiynau cyffredin

Cyflwyniad

Crynodeb yw'r 'cwestiynau cyffredin' hyn ar daliadau uniongyrchol o adroddiad manylach sydd ar gael ar wefan SCIE (www.scie.org.uk). Bwriad y ddogfen lawn oedd sbarduno diddordeb a syniadau ac mae'n cynnwys rhai o'r enghreifftiau o'r arolwg o ymarfer a gomisiynwyd gan SCIE yn 2004 ac a gyflawnwyd gan y Ganolfan Gweithredu Cymdeithasol ym Mhrifysgol De Montfort.

Mae'r adroddiad llawn wedi'i anelu'n benodol at ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n ystyried ffyrdd o ddefnyddio deddfwriaeth taliadau uniongyrchol, a'n gobaith yw y byddwch yn bwrw golwg ar y fersiwn llawn. Mae'n darparu enghreifftiau o arferion da a dolenni i wybodaeth gysylltiedig, canllawiau ac arbenigedd yn y maes gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gwasanaethau cymorth taliadau uniongyrchol ac ymarferwyr.

Y neges allweddol am daliadau uniongyrchol – o'r adroddiad a gan y llywodraeth – yw ewch amdani!

Cwestiynau cyffredin

- Beth yw taliad uniongyrchol?
- Pam taliadau uniongyrchol?

- Pwy all gael taliadau uniongyrchol? Ar gyfer beth y gellir eu defnyddio?
- Sut bydd taliadau uniongyrchol yn gwella'r ffordd y mae pethau wedi cael eu gwneud hyd yn hyn?
- Sut gwyddom ni fod taliadau uniongyrchol yn gweithio mewn gwirionedd?
- Sut gellir hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i gynlluniau?
- Sut mae sicrhau bod y broses mor hwylus â phosib?
- Pa fath o hyfforddiant alla i ei gael i fod yn fwy hyderus wrth weithio gyda thaliadau uniongyrchol?
- Beth ellir ei wneud i hyrwyddo taliadau uniongyrchol i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill ar y cyrion?
- Sut ydych chi'n cyflwyno'r syniad o daliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau?
- Sut mae'r broses asesu'n gweithio?
- Beth am gael cydsyniad?
- A yw cyflogi cynorthwy-ydd personol yn gymhleth?

Beth yw taliad uniongyrchol?

Arian a roddir gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol i unigolion fel y gallant brynu'r cymorth yr asesir y mae ei angen arnynt – dyna yw taliad uniongyrchol. Mae hyn yn cymryd lle gwasanaethau a ddarperir gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol, ac nid oes uchafswm ariannol penodol. Mae arweiniad ar daliadau uniongyrchol, gan gynnwys fersiynau

hawdd eu darllen, ar gael ar wefan yr Adran Iechyd (www.dh.gov.uk/PolicyAndGuidance/OrganisationPolicy/FinanceAndPlanning/DirectPayments/fs/en). Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i awdurdodau yng Nghymru (www.cymru.gov.uk/subisocialpolicy/content/direct/practice_e.htm).

Mae gwybodaeth am daliadau uniongyrchol ar gael hefyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Byw'n Annibynnol (NCIL, www.ncil.org.uk).

Fel arall gallwch fynd i'r gwefannau hyn ac eraill a grybwyllir yn y crynodeb hwn yn www.scie.org.uk

Yn Ebrill 2003, daeth rheoliadau i rym a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau yn Lloegr gynnig taliadau uniongyrchol i bawb a oedd yn defnyddio gwasanaethau gofal yn y gymuned. Daeth y rheoliad cyfatebol i Gymru i rym ym mis Awst 2004. Mae taliadau uniongyrchol hefyd yn ddangosydd perfformiad allweddol i awdurdodau lleol.

Pam taliadau uniongyrchol?

Mae taliadau uniongyrchol yn ddull cymharol newydd o gynorthwyo pobl anabl i fyw bywydau mwy annibynnol ac i gael dewis a rheoli'r gwasanaethau a dderbyniant. Ar ôl ymgyrchu di-flino gan bobl anabl, daeth Deddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996 i

rym ym mis Ebrill 1997. Rhoddodd hyn y pŵer (ond nid y ddyletswydd) i awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wneud taliadau uniongyrchol.

Yn Ebrill 2003, daeth rheoliadau i rym a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau yn Lloegr gynnig taliadau uniongyrchol i bawb a oedd yn defnyddio gwasanaethau gofal yn y gymuned.

> I unigolion, gall taliad uniongyrchol olygu'r gwahaniaeth rhwng gorfod byw mewn cartref sefydliadol a chael y cymorth sydd ei angen arnoch i allu byw yn eich cartref eich hun.
>
> Andrew Holman (1999) Cyfieithiad o ddyfyniad o *Funding freedom 2000: People with learning difficulties using direct payments*, Llundain: Values into Action

Pwy all gael taliadau uniongyrchol? Ar gyfer beth y gellir eu defnyddio?

I ddechrau, roedd pobl 18-65 oed yr aseswyd eu bod angen gwasanaethau gofal yn y gymuned yn gymwys. Ehangwyd taliadau uniongyrchol i bobl anabl hŷn yn 2000, ac, ers Ebrill 2001, maen nhw wedi bod ar gael i gynhalwyr, rhieni plant anabl a phobl ifanc anabl 16 ac 17 oed. Mae'n rhaid i bawb sy'n gymwys gydsynio i dderbyn taliadau uniongyrchol a bod â'r gallu i'w rheoli, gyda chymorth os oes angen.

Mae sawl enghraifft o sut mae taliadau uniongyrchol wedi trawsnewid bywydau

defnyddwyr gwasanaethau, gan roi mwy o annibyniaeth, hyblygrwydd a dewis iddyn nhw.

> "Dwi bellach yn gweithio'n llawn amser ac mae 'nghynorthwy-ydd personol i'n fy helpu ac yn rhoi'r cyfle i fi fyw bywyd llawn. Yn y gorffennol pan roeddwn i'n defnyddio asiantaeth, doedd gen i ddim rheolaeth dros bwy oedd yn dod i 'nghartre i, pryd, beth oedden nhw'n ei wneud na dim. Fi sydd wrth y llyw bellach, ac mae gen i'r dewis a'r hawl i fyw fy mywyd fel dwi isho ei fyw o."
>
> *Defnyddiwr gwasanaethau – am daliadau uniongyrchol*

Gellir gwneud taliadau ar gyfer anghenion bob dydd fel gwisgo, coginio, gyrru, rhoi bath i blant a chymorth wrth adael yr ysbyty. Gellir eu defnyddio hefyd i wneud gweithgareddau cymdeithasol yn bosib – ymweld â ffrindiau, dosbarthiadau nos a choleg a garddio – yn ogystal â helpu pobl i gael mynediad i hyfforddiant a chyflogaeth. Yn wir, gellir eu defnyddio i brynu unrhyw beth a ystyrir yn angen a aseswyd.

> "Rydyn ni'n dueddol o geisio cael teulu a ffrindiau i gymryd mwy o ran yn y broses gyda phobl hŷn. Maen nhw'n hoffi teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo gan rywun maen nhw'n ei 'nabod. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cymryd yn ganiataol fod pobl hŷn am osgoi ffwdan. Dwi'n gwybod bod pobl hŷn yn hoffi taliadau uniongyrchol oherwydd eu bod nhw'n

rhoi mwy o urddas, dewis, parch a rheolaeth iddyn nhw. Maen nhw'n hoffi ymweliadau ar y cyd. Mae rhai'n defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer arosiadau dros nos, gofal tymor byr a sawl ffordd arall pan maen nhw angen cymorth rhan-amser heb golli eu balchder! Mae'r 'fforwm pobl hŷn' yn cyfarfod bob mis i drafod unrhyw bryderon neu faterion sydd ganddyn nhw, ac mae'r awdurdod lleol yn cael ymateb gan y grŵp bob tro.

Awdurdod lleol Gateshead

Sut bydd taliadau uniongyrchol yn gwella'r ffordd y mae pethau wedi cael eu gwneud hyd yn hyn?

Mae'n amlwg bod taliadau uniongyrchol yn golygu newid diwylliant mewn awdurdodau lleol. Mae'n gofyn am newid mewn pŵer a rhagor o bwyslais ar gyfateb adnoddau i anghenion unigolion yn hytrach na chyfateb anghenion i wasanaethau cyfredol.

Mae'n newid o fod yn geidwaid gwasanaethau i ddarparu'r math o gymorth y mae pobl am ei gael go iawn ac y gallan nhw elwa arno. I staff, gall hyn arwain at gynnydd sylweddol mewn boddhad swydd ac, i reolwyr gofal, gwybod eu bod nhw wedi gallu cydweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau i wneud gwahaniaeth yn y ffordd maen nhw'n byw eu bywydau.

"'Does neb yn hyrwyddo taliadau uniongyrchol yn well na'r bobl sy'n eu defnyddio. Daeth hyn yn amlwg i mi pan oeddwn i'n gweithio mewn tîm gwaith cymdeithasol ym maes anableddau corfforol ac yn cyfarfod pobl anabl bob dydd a oedd yn disgrifio'r gwahaniaeth roedd taliadau uniongyrchol wedi'i wneud i'w bywydau nhw a sut roedden nhw wedi rhoi rhagor o reolaeth iddyn nhw. Dwi bellach yn hyfforddi gweithwyr cymdeithasol, ac mae fy nghyd-hyfforddwr yn anabl ac yn defnyddio taliadau uniongyrchol gyda chynorthwy-ydd personol, ac mae hyn hefyd yn hyrwyddo taliadau uniongyrchol mewn ffordd gadarnhaol iawn. Rydyn ni'n gobeithio defnyddio'r dull hwn wrth hyrwyddo taliadau uniongyrchol i bobl hŷn drwy annog defnyddwyr taliadau uniongyrchol yn y maes i rannu eu profiad gyda phobl o'r un oed. Mae gennym ni weithiwr newydd a fydd yn gallu datblygu hyn gobeithio."

Awdurdod lleol Coventry

"'Dyw'r hyn sy'n cael ei ofyn gennych chi ddim yn hawdd, dwi'n gwybod hynny. Mae'n golygu newid agwedd. Mae'n golygu gwneud llawer mwy wrth drin pobl rydych chi'n gweithio gyda nhw fel unigolion a theilwra cymorth ar eu cyfer. Mae'n golygu gadael iddyn nhw fod wrth y llyw. Ac mae'n golygu cadw at egwyddorion byw'n annibynnol, a helpu pobl i symud i ffwrdd o fod yn ddibynnol arnoch chi am help i fod yn ddibynnol ar eu hunain yn unig. Nid ar chwarae bach mae gwneud hynny!"

Araith gan Stephen Ladyman AS, Is-ysgrifennydd Gwladol dros y Gymuned, 18 Mai 2004

Sut gwyddom ni fod taliadau uniongyrchol yn gweithio mewn gwirionedd?

Mae llawer o dystiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau o'r gwahaniaeth sylweddol y gall taliadau uniongyrchol eu gwneud i fywydau a ffyrdd o fyw. Hefyd, mae tystiolaeth staff mewn awdurdodau lleol sydd wedi gweld effaith gweithio mewn amgylchedd sy'n cynnig dewis a chyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau gael rhagor o reolaeth dros eu bywydau eu hunain.

"Diolch i'r taliadau uniongyrchol, fe allodd un dyn anabl gyflogi ffrind i fynd â fe ar wyliau pysgota, ymweld ag ysgol y plant, byw bywyd go iawn."

DIAL Ynys Wyth

"Taliadau uniongyrchol ar gyfer rhiant sengl plentyn dwy oed. Mae gan y fam gyflwr penodol sy'n golygu bod yn rhaid iddi orffwyso'n rheolaidd ac ymweld â'r ysbyty bob chwe wythnos. Mae ei thaliad uniongyrchol wedi galluogi iddi dalu am nani sy'n byw gyda nhw."

Awdurdod lleol Ynys Wyth

"Wedi cynorthwyo unigolion sydd wedi gallu cyflogi gweithwyr cymorth i siarad yr un iaith â nhw. Maen nhw wedi cael rhagor o hyblygrwydd o ran yr oriau maen nhw'n eu dewis i dderbyn y cymorth, mwy o ddewis o ran gweithgareddau a chysondeb cyffredinol."

Southwark Choice Support

Sut gellir hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i gynlluniau?

Gellir hyrwyddo taliadau uniongyrchol yn llwyddiannus iawn wrth wneud hynny ar y cyd â chynllun cymorth taliadau uniongyrchol neu sefydliad arall yng ngofal defnyddwyr dan arweiniad defnyddwyr. Dyma rai enghreifftiau o sut i fynd ati, yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg o ymarfer:

- Penodi rheolwr datblygu i gynhyrchu deunydd darllen a chyhoeddusrwydd.
- Taflenni cyhoeddusrwydd clir, heb jargon mewn fformatau hygyrch, fel Braille, casét sain, fideo/DVD gydag iaith arwyddion ac isdeitlau, ac mewn ieithoedd cymunedau lleol. Dylid gwneud fersiynau hefyd sy'n addas ar gyfer defnyddwyr gydag anableddau dysgu.
- Gwefan hygyrch ar daliadau uniongyrchol. Gallai hon gynnwys taflenni ar gyfer awdurdodau lleol penodol, ynghyd â dolenni i adnoddau cenedlaethol fel:
  - > Valuing People Support Team: www.valuingpeople.gov.uk
  - > ICES (Integrating Community Equipment Services): www.icesdoh.org
  - > Change Agent Team: www.dh.gov.uk

- Defnyddio'r cyfryngau, er enghraifft, i dynnu sylw at daliadau uniongyrchol yn y wasg leol, cyhoeddi erthyglau'n rheolaidd am daliadau uniongyrchol mewn cylchgrawn bro am ddim, hysbysebion ar radio lleol.

- Cyfweliadau radio a sesiynau fforwm agored gyda gweithwyr proffesiynol yn dod i siarad gyda'r cyhoedd am daliadau uniongyrchol, yna agor y llinellau ffôn.
- Meddygfeydd teulu (taflenni, sesiynau galw i mewn, ymwelwyr iechyd ac ati), swyddfeydd post, posteri a lleoliadau eraill.

Dylai rheolwyr gofal drafod taliadau uniongyrchol gyda'r holl bobl sy'n gymwys wrth asesu neu adolygu eu hachosion. Dylid hefyd gofyn cwestiwn penodol am daliadau uniongyrchol ar y ffurflen asesu gofal yn y gymuned.

Sut mae sicrhau bod y broses mor hwylus â phosib?

Yn 2000, adroddodd Scope bod y gwaith monitro ac arwain hyd yma wedi canolbwyntio mwy ar gyllid nag ansawdd gwasanaethau. Mae hyn o bosib yn adlewyrchu'r pryder y bydd pobl yn rhedeg i ffwrdd gyda'r arian neu'n ei gamddefnyddio. Fodd bynnag, mae atebolrwydd a dulliau diogelu'n rhan o'r broses.

> Mae pobl am i eraill fod yn hyderus y byddan nhw'n gwario'u harian taliad uniongyrchol ar y pethau sydd eu hangen arnyn nhw. Maen nhw am gael hyblygrwydd a rheolaeth.
>
> *Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, 2004*

> "Dywedodd fy ngweithiwr cymdeithasol, 'Dyw eich pecyn gofal chi ddim yn gwbl anhyblyg fel na ellir ei newid – cysylltwch â ni os ydych chi angen rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau.'"
>
> *Defnyddiwr gwasanaethau taliadau uniongyrchol*

Bydd yn rhaid i'r cyngor fodloni ei hun bod yr anghenion y mae'n rhoi taliadau uniongyrchol ar eu cyfer nhw'n cael eu diwallu, a dylai drafod sut i fynd ati i sicrhau hyn gyda'r defnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft, gallai gynnwys ymweld â defnyddwyr gwasanaethau yn eu cartrefi.

Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer sut y gellir defnyddio taliadau uniongyrchol yn yr un ffordd â gwasanaethau a dderbynnir yn draddodiadol. Mae hyn er mwyn pennu a yw anghenion yn cael eu diwallu ac a ydyn nhw wedi newid mewn unrhyw ffordd.

Pa fath o hyfforddiant alla i ei gael i fod yn fwy hyderus wrth weithio gyda thaliadau uniongyrchol?

Mae mwy i arferion da na mecanweithiau taliadau uniongyrchol yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â hawliau anabledd a sut i hyrwyddo byw'n annibynnol. Mae angen hyfforddiant ar lefel uwch ac ar gyfer ymarferwyr a dylai gynnwys deunydd ar fyw'n annibynnol (www.ncil.org.uk), y model cymdeithasol o

anabledd (www.viauk.org.uk) – y wefan wrthi'n cael ei datblygu) a chynllunio ar sail yr unigolyn (www.valuingpeople.gov.uk/pcp.htm).

> "Rydyn ni'n cyflwyno dull newydd o hyfforddi lle rydyn ni'n cynnal diwrnod hyfforddiant ac yna sesiynau hanner diwrnod i ddelio â meysydd arbenigol e.e. anableddau dysgu, pobl hŷn, namau iechyd meddwl ac ati. Rydyn ni'n ailwampio cynnwys y cwrs, o'r trosolwg cyffredinol i'r gwaith penodol sy'n canolbwyntio ar achosion unigol, gyda defnyddwyr gwasanaethau taliadau uniongyrchol sydd â phrofiad personol."
>
> *Awdurdod lleol Hampshire*

Mae'r arolwg o ymarfer yn awgrymu y byddai hyfforddiant ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau cymorth taliadau uniongyrchol yn ddull delfrydol o ddarparu hyfforddiant. Byddai hyn yn galluogi cyfranogwyr i glywed safbwyntiau a phrofiadau pobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol a chydweithwyr sydd wedi'u gweithredu'n llwyddiannus.

Beth ellir ei wneud i hyrwyddo taliadau uniongyrchol i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill ar y cyrion?

Cydnabyddir nad oes llawer o daliadau wedi'u gwneud hyd yma i bobl o grwpiau lleiafrifol. Fodd bynnag, mae enghreifftiau ar gael o waith sydd wedi'i wneud i hyrwyddo taliadau ac annog y grwpiau hyn i fanteisio arnyn nhw.

"Rydyn ni'n gweithio i feithrin cysylltiadau da gyda grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac annog aelodau o'r cymunedau hyn i fanteisio ar daliadau uniongyrchol. Aethom ati yn y lle cyntaf drwy wahodd cynrychiolwyr o gymunedau ethnig i lansiad ein gwefan newydd ar daliadau uniongyrchol. Drwy hyn, recriwtiwyd rhai defnyddwyr gwasanaethau i'r cynllun a oedd yn rhoi'r cyfle i ni ymestyn ymhellach i'r gymuned. Byddem yn gofyn iddyn nhw a'u teuluoedd am syniadau am leoedd a grwpiau i fynd atyn nhw i wneud cyflwyniadau am daliadau uniongyrchol. Byddem yn annog y defnyddiwr taliadau uniongyrchol i siarad am eu profiad nhw o'r cynllun gydag eraill yn eu cymuned. Byddem yn gofyn i aelodau teulu ein helpu i gyfieithu ein taflenni i ieithoedd cymunedol er mwyn i ni gael rhagor o gyhoeddusrwydd."

Gwasanaeth Cyngor ar Daliadau Uniongyrchol Brighton-

Er bod yr enghreifftiau canlynol yn ymwneud yn benodol â grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ymddengys bod rhai egwyddorion y gellir eu defnyddio gyda grwpiau eraill sydd ar y cyrion:

- targedu pobl i fynychu digwyddiadau penodol lle bydd gwybodaeth yn cael ei darparu, fel digwyddiadau yn y gymuned
- recriwtio defnyddwyr gwasanaethau i gynlluniau/awdurdodau lleol a defnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd i addysgu eraill
- gwaith allgymorth yn y gymuned

- annog defnyddwyr gwasanaethau i rannu profiadau
- defnyddio deunydd addysgol mewn fformatau hygyrch, fel Braille, fideo, hawdd ei ddarllen (www.valuingpeople.gov.uk/index.htm; National Institute for Mental Health in England, www.nimhe.org.uk)
- yr awdurdod lleol i gyflogi gweithwyr arbenigol o grwpiau cymuned penodol.

Sut ydych chi'n cyflwyno'r syniad o daliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau?

Mae'r arolwg o ymarfer yn awgrymu bod angen i weithwyr cymdeithasol ymlacio a chael mwy o ffydd yn y dull taliadau uniongyrchol. Mae angen i weithwyr cymdeithasol fod yn hyblyg a symud i ffwrdd o'r dulliau traddodiadol o wneud pethau. Dylai gweithwyr cymdeithasol drafod y posibilrwydd o daliadau uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau bob tro, yn hytrach na phenderfynu ar gyfer pwy y gallan nhw fod yn addas ai peidio. Fel rhan o asesiad gofal yn y gymuned unigolyn, mae'n cynnig dewis positif i'r unigolyn ac mae angen ei bwyso a'i fesur yn llawn cyn gwneud penderfyniad.

Cydnabyddir y gall y broses asesu ar gyfer taliadau uniongyrchol fod yn feichus ac efallai y bydd angen sawl sesiwn cyn ei chwblhau. Mae angen cynnig amser a chymorth i bobl allu gwneud penderfyniad cytbwys. Dylai contractio neu barhau i gynnig gwasanaethau traddodiadol tra bod hyn yn digwydd fod yn opsiwn.

"Mae rheolwyr gofal a chynghorwyr o'r gwasanaeth cymorth yn mynd ar ymweliadau ar y cyd yn ystod y cyfnodau cyntaf."
Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol Croydon

"Roedd yn brofiad gwerth chweil oherwydd fy mod i wedi cael cymorth i wneud fy hunanasesiad fy hun ymlaen llaw ac wedi paratoi'n dda gyda digon o gymorth."
Defnyddiwr gwasanaethau taliadau uniongyrchol

Sut mae'r broses asesu'n gweithio?

Mae hunanasesu'n agwedd bwysig ar y broses hon, a dylai ymgeiswyr wybod beth yw eu hanghenion nhw eu hunain. Gellir hwyluso hyn drwy eiriolwr, perthynas neu ffrind, a gellir ei wneud cyn y cyfarfod asesu ffurfiol.

Gellir hwyluso'r broses hefyd drwy gynnwys gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol, sy'n cael ei staffio fel arfer gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Gall fod yn ddefnyddiol cael rhywun gyda phrofiad ymarferol i egluro'r broses a delio ag unrhyw bryderon.

Dylai asesiadau gynnwys chwe phrif gategori (o *Everything you need to know about direct payments*, 2005, tud 12 gan y NCIL):

1. gofal personol a chymdeithasol
2. gofal iechyd

3. llety
4. cyllid
5. addysg, hamdden, cyflogaeth
6. trafnidiaeth a mynediad.

Mae canllawiau *Cylchlythyr LAC (2002) 13 Mynediad Teg at Wasanaethau Gofal* yr Adran Iechyd yn darparu fframwaith i awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau ar sut y gallan nhw ddarparu cymorth i oedolion o bob oed. Mae'n ofynnol iddyn nhw fod yn gyson wrth bennu blaenoriaethau sy'n diwallu anghenion pobl er mwyn hyrwyddo annibyniaeth ac ansawdd bywyd. Mae'r asesiad ar gyfer taliadau uniongyrchol yr un fath ag ar gyfer gwasanaethau eraill. Mae hyn yn golygu edrych ar yr angen am gymorth a'r hyn y mae gwasanaethau cymdeithasol yn ei ystyried fel risgiau posib i annibyniaeth yr unigolyn os nad ydyn nhw'n cael gwasanaeth.

Beth am gael cydsyniad?

Mae rhan o'r asesiad yn ymwneud â darganfod a yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn gallu cydsynio i dderbyn taliad uniongyrchol. Mae angen i aseswyr fynd ati i wneud hyn yn greadigol a chyda meddwl agored, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu gyda phobl a allai fod ag amrywiaeth o namau.

Mae'n amlwg bod cael cydsyniad yn broses raddol a gall gymryd amser i'w wneud yn iawn. Dylai gynnwys y defnyddiwr taliad uniongyrchol

unigol, gwasanaethau cymdeithasol, y teulu, eiriolwyr, ffrindiau a'r gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol. Gellir cynorthwyo'r broses hefyd drwy ddefnyddio cymhorthion eraill fel fideos a lluniau. Mae gan yr Adran Iechyd arweiniad hawdd ei ddarllen ar daliadau uniongyrchol a ddatblygwyd gan Swindon People First ac mae ar gael ar y wefan (www.dh.gov.uk).

> "Aethom ati gam wrth gam, gan eistedd i lawr gyda Jac a'i fam i ddechrau a siarad am y posibilrwydd. Roedd gen i ddeunydd darllen, mae gan yr Adran Iechyd daflen a chasét [CD bellach] am daliadau uniongyrchol i bobl ag anawsterau dysgu. Wedyn gwyliodd y tri ohonom ni'r fideo *Values into Action* gyda'n gilydd. Mae'n dda iawn, ond mae gan y rhan fwyaf o'r bobl yn y fideo namau corfforol, a phrin yw'r rhai ag anawsterau dysgu. Rhoddodd hyn ddarlun bras iddo a'i wneud yn ymwybodol o'r posibiliadau, gan roi gwybodaeth iddo i'w helpu i wneud ei benderfyniadau."
>
> *Awdurdod lleol Swydd Nottingham*

A yw cyflogi cynorthwy-ydd personol yn gymhleth?

Mae defnyddwyr taliadau uniongyrchol wedi nodi bod angen ymrwymiad a chydweithrediad o bob math gan y gwasanaethau arnyn nhw i'w cynorthwyo i elwa ar gyflogi cynorthwywyr personol. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael. Gall yr awdurdod lleol ddarparu'r cymorth hwn yn uniongyrchol

neu drwy gyllid penodol i wasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol lleol.

> "Mae'r awdurdod yn gweithio gyda chanolfan gynhalwyr i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth, gan gynnwys gwasanaeth cyflogres. Mae'n cynnal cyfarfodydd ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaethau i drafod anghenion hyfforddiant y sawl fydd yn derbyn y gwasanaeth a chynorthwywyr personol."
>
> *Awdurdod lleol Sefton*

Gellir cyflogi cynorthwywyr personol i wneud amrywiaeth o dasgau, o ofal personol i gerdded y ci, dyfrhau'r planhigion, darllen llythyrau, cyflawni tasgau rhieni a chynorthwyo defnyddwyr i fynd ar wyliau. Mae gwasanaethau cymorth taliadau uniongyrchol wedi cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau, gan oresgyn y rhwystrau a gwneud y broses o gyflogi cynorthwywyr personol yn llawer haws. Mewn rhai ardaloedd, mae'r Ganolfan Byd Gwaith hefyd wedi cynorthwyo gyda'r broses hon.

> "Dyw cyflogi cynorthwy-ydd personol drwy daliadau uniongyrchol ddim yr un fath â chael gweithiwr gofal. Maen nhw'n fath gwahanol o bobl – mewn ffordd, mae'n broffesiwn newydd gan fod angen gwahanol sgiliau ar bobl. Os yw defnyddwyr yn deall hyn, byddan nhw'n cael mwy o fudd o'u cynorthwywyr personol. Fel

arall, mae'r hen drefn yn codi ei phen ac mae pobl yn ddibynnol unwaith eto."

Defnyddiwr gwasanaethau taliadau uniongyrchol

RHAGFYR 2005

Taliadau uniongyrchol: ateb cwestiynau cyffredin

Cyhoeddir yr arweiniad adnoddau llawn gan SCIE. Mae ar gael fel copi caled gan SCIE ac ar ein gwefan. Mae holl gyhoeddiadau ac adnoddau SCIE am ddim.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn gwahanol fformat ar gais.

Social Care Institute for Excellence
Goldings House, 2 Hay's Lane
Llundain SE1 2HB
ffôn 020 7089 6840
ffacs 020 7089 6841
ffôn testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk